MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL

GORCHYMYN NEWID HINSAWDD (NWYON TY GWYDR WEDI'U TARGEDU) 2022

1. Cafodd y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn ei osod o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS30A yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ac y gellir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron Senedd Cymru os yw Offeryn Statudol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

2. Mae Gorchymyn Newid Hinsawdd (Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Targedu) 2022 ("y Gorchymyn") yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ac fe'i gosodwyd gerbron Senedd y DU ar 19 Hydref 2022. Cafodd copi o'r Gorchymyn ei osod ochr yn ochr â'r memorandwm hwn ar 21 Hydref a chewch ei weld hefyd yn:

   https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2022/9780348239713/contents

Crynodeb o'r Gorchymyn a'i amcan

Deddf Newid Hinsawdd 2008

3. Mae Rhan 1 o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 ("y CCA"), yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ostwng cyfrif carbon net y DU ar gyfer y flwyddyn 2050 i fod o leiaf 100% yn is na lefel allyriadau net gwaelodlin 1990 y DU (h.y. swm allyriadau cyfanredol net carbon deuocsid y DU ar gyfer y flwyddyn honno ac allyriadau net y DU o bob un o'r nwyon tŷ gwydr eraill sydd wedi'u targedu, ar gyfer y flwyddyn sy'n flwyddyn sylfaen y nwy hwnnw. Pennwyd y blynyddoedd sylfaen hynny yn adran 25 o'r CCA).

4. Diffinnir "nwy tŷ gwydr wedi'i dargedu" yn adran 24 o'r CCA. Diffinnir "cyfrif carbon net" yn adran 27. Diffinnir "allyriadau net y DU" yn adran 29.

5. Mae Rhan 1 o'r CCA yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu "cyllidebau carbon" sy'n cynrychioli allyriadau'r DU am gyfnodau o bum mlynedd, gan ystyried unrhyw "unedau carbon" sy'n cael eu credydu neu eu debydu i gyfrif carbon net y DU o dan system "cyfrifo carbon". Mae'n gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gyflwyno adroddiad ar allyriadau'r DU i Senedd y DU, ac i adrodd ar y mesurau y bydd Llywodraeth y DU yn eu cymryd i gyrraedd y cyllidebau carbon sy'n cael eu pennu o dan Ran 1.

6. Mae adran 80 o'r CCA yn gosod dyletswydd hefyd ar Weinidogion Cymru i osod adroddiad o bryd i'w gilydd gerbron Senedd Cymru ar amcanion

Gweinidogion Cymru o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr ac effaith newid hinsawdd yng Nghymru, y camau a gymerir gan Weinidogion Cymru ac eraill i ddelio ag allyriadau o'r fath a'u heffaith, a blaenoriaethau Gweinidogion Cymru ac eraill yn y dyfodol ar gyfer delio ag allyriadau o'r fath a'r effaith honno.

Crynodeb ac amcan

7. Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth o ran allyriadau at ddiben adroddiadau carbon yr CCA. Y canlyniad yw y caiff allyriadau NF_3 eu cynnwys ymhlith yr allyriadau a gofnodir ar gyfer Datganiad Allyriadau Blynyddol 2021 (i'w gyhoeddi Mawrth 2023), cyfnod cyfrifo llawn Trydedd Gyllideb Garbon y DU (2018-2022), a chyllidebau carbon y DU wedi hynny.

Y ddarpariaeth yn y Gorchymyn y gofynnir am gydsyniad ar ei gyfer

8. Mae Erthygl 2 o'r Gorchymyn yn dynodi nitrogen trifflworid ("NF_3") fel nwy tŷ gwydr sydd wedi'i dargedu at ddiben adran 24(1)(g) o'r CCA.

9. Mae Erthygl 3 o'r Gorchymyn yn diwygio'r CCA fel a ganlyn -

   • pennir mai blwyddyn sylfaen NF_3 fel nwy tŷ gwydr wedi'i dargedu yw 1995,

   • cynhwysir NF_3 o fewn y diffiniad o nwy tŷ gwydr.

10. Barn Llywodraeth Cymru yw bod y ddarpariaeth a ddisgrifir ym mharagraffau 8 a 9 ac uchod, i'r graddau ei bod yn estyn i Gymru a Lloegr ac yn gymwys i Gymru, yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Gofynnir am gydsyniad ar gyfer y ddarpariaeth honno.

11. Mae'r ddarpariaeth yn yr CCA yr effeithir arni gan y Gorchymyn yn ymwneud â mesurau sydd wedi'u creu i ddelio ag effaith allyriadau ar newid hinsawdd. Gellir ei disgrifio fel darpariaeth sy'n 'diogelu'r amgylchedd' (gan gynnwys 'llygredd'). Nid yw hwnnw'n fater sydd fater sydd wedi'i gadw i Senedd y DU gan Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Goblygiadau ariannol

12. Nid oes goblygiadau ariannol i Gymru o roi cydsyniad i'r darpariaethau yn y Gorchymyn.

Pam ei bod hi'n briodol i'r Offeryn wneud y ddarpariaeth hon

13. Yn fy marn i, y Gorchymyn yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur i wneud y ddarpariaeth dan sylw yn gymwys yng Nghymru.

14. Bydd y ddarpariaeth yn cysoni'r CCA â Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n sefydlu fframwaith statudol ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru. Mae'r fframwaith eisoes yn cynnwys NF_3 fel nwy tŷ gwydr (gweler adran 37(1)(g) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016), gyda 1995 yn flwyddyn sylfaen iddo (gweler adran 38(2)(g)).

Julie James AS
Gweinidog Newid Hinsawdd
21 Hydref 2022